We are aware that there remains considerable uncertainty and it is important for trust that unrealistic expectations are kept at a minimum. This needs to be balanced by the need to allow for a steer for business planning. Scenario setting provides space for businesses to plan for different scenarios for themselves within a common framework, and provides for judgement over an uncertain transition to normality during 2021.

Investment of time and business support in this way provides for capacity and capability building for businesses to prime them for recovery and reconstruction.

It is important that businesses have confidence that the institutional business support of Business Wales and the Development Bank for Wales, which are now a recognisable support infrastructure after being an instrumental part in delivering Covid support in 2020, will continue to be developed and seen as an important priority for government.

For the purposes of long-term certainty on the business support infrastructure we would welcome a public statement of commitment to the future role of Business Wales as a key part of economic development strategy in Wales, reflecting its importance to recovery and reconstruction after Covid-19.

Business Wales will be vital business support infrastructure over the whole of the next Senedd term. We are concerned that the business support budget – and Business Wales with its strong brand and recognisability among SMEs after the Covid-19 support response in particular - will come under increasing threat as EU funding tapers off. We are alarmed that the funding for the 2022-23 for Business Wales could face a cliff edge, at a time that will still be vital for Covid-19 reconstruction and when it is plausible many businesses will remain in a precarious state.

The lack of clarity around the quantum of Welsh Funding under a Shared Prosperity Fund remains, and we would wish to see a strong commitment from both UK and Welsh Government to retaining support for Business Wales over the entire 2021-26 Senedd term.

Recovery and Reconstruction

Ff/T 029 2074 7406
E wales.policy@fsb.org.uk
W fsb.wales

C/A 1 Cleeve House,
Lambourne Crescent,
Cardiff CF11 7CC
Fudalen y pecyn 75

Swyddfa Gofrestredig | Registered Office:
National Federation of Self Employed and Small Businesses Limited,
Sir Frank Whittle Way, Blackpool Business Park, Blackpool, FY4 2FE

Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif | Registered in England: 1263540



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

The draft budget reference to a 'recovery and reconstruction plan'. We need to see more details on this plan and its vision for business recovery in 2021.

Committing money to the regeneration of Wales' town centres is a vital development, but we must be realistic about the question of whether more money will be needed, and ideas such as our call for a Local Transport Fund should be considered. The funding for foundational economy projects is also welcome, delivering on development of the strategy prior to Covid-19 over this Senedd period. There is clear ambition for decarbonisation in schools and public transport but would ask that Welsh Government extend this ambition beyond the public sector and develop a plan for how they will support businesses to play their part, given the scale and urgency of the need to decarbonise.

We also welcome the commitments to infrastructure, alongside the management of MIM funding by the Development Bank for Wales. The further £5m allocation in the Economy futures Fund is welcome, and we look to further details on how this is to 'work in tandem with the Development Bank of Wales 'offer''. The ongoing additional support to infrastructure plans is welcome.

However, all of these interventions, while important, do not yet cohere to a vision taking into account the impact of the pandemic. We acknowledge that the election will provide for debates that shape the next government's position. Nevertheless, businesses require this vision in looking at our economic prospects after the current lockdown more urgently. We hope that the mooted 'COVID-19 reconstruction and recovery plan' will outline the Welsh Government's vision for how Wales can begin the economic recovery from Coronavirus, and look forward to more detail in this regard. This should also look at the further expansion of the Development Bank's roles, and that of Business Wales, as well as – as mentioned in the draft budget – support to deliver on the new £1.6m Export Plan.

Sectors in particular need

It will come as no surprise that – while many businesses across the board will be in a precarious position after 2020 – a key sector requiring attention is Tourism, Hospitality and Leisure. Given its importance to (in particular) Wales' rural economy and employment, this area should be treated as a key sector and an area that needs targeted support. We called for a Tourism Hibernation Scheme from near the start of the pandemic, and acknowledge that support has been set aside for this sector.

Our points above on business planning are particularly relevant to tourism and hospitality, with winter months providing valuable planning time for high seasons. Ideally, one would hope that Easter (the start of April) will be able to be relatively unrestricted, and so provide the first bounce, and would hope that we can plan for that scenario. However, with 'staycations' being the likely prevalent activity this year, and a likely glut of tourists looking to holiday when restrictions allow from the 2nd Quarter of 2021, we would suggest that providing information early and tools planning for that time – whenever it will occur – would still bear fruit. If it occurs outside school holidays there is still likely to be a substantial demand for UK tourism this year, and Wales' businesses need to be in a position to plan accordingly.



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

Other areas of particular concern are those built around creative industries and events, and those freelancers that support them.

There remain too many groups who need more support to weather this storm such as the newly self-employed, those in supply chains and company directors. For example, the support for the recently self-employed was a one-off payment of £2500 in June 2020. The messaging around long-term economic development and recovery, with continued support outside the Covid support through Business Wales is important too in encouraging new start-ups in 2021 during the recovery, with new potential businesses confident that they can thrive in the new environment.

At the time of writing, we are awaiting the next tranche of Economic Resilience Fund, and see this as a vital part of priming for business growth with a focus on businesses looking to expand in 2021.

It is useful to note the preparatory work will happen towards the end of 2021 on NDR revaluations on the tax base. We would note that the impact of Covid-19 may not yet be reflected in property values, and so there is a need to take this into account. For example, the impact on footfall caused by the pandemic, including on high streets, and the longer-term impact on footfall through long-term remote working aims, should also be taken into account. A business rate freeze for the duration of the next Senedd would provide for more certainty for business.

Welsh Budgetary Inflexibility

While there is general uncertainty that is making clarity in budgetary allocations difficult, we would also note that the lack of flexibility in the Welsh budget is also a problem.

It has long been FSB's position that Welsh Government's borrowing powers should be enhanced, and the Covid-19 situation illustrates why this is needed. We have long noted that Wales' debt levels are low and that borrowing powers should be relaxed to allow for infrastructure spending programme. We agree with the draft Budget's commitment to 'push HM Treasury' for 'broader flexibilities...to manage our budget in the most effective way' and increases on 'limits on our access to capital borrowing', as well as 'greater year-end carry forward and drawdown flexibilities within the Welsh reserve'. Covid-19 has illustrated the practical limits these budgetary constraints have on policy making in Wales, and we acknowledge that they place limits on Welsh Government's room for more effective planning.

We would note that the draft budget looks to borrow the maximum level, and to take out of reserves the uppermost limit.

While we would look for Welsh Government to use consequential in Covid business support to support business in need now, the lack of ability to carry over any unspent money is not conducive to a virus that takes no account of budgetary dates, and is not particularly useful in terms of fiscal responsibility in promoting a budgetary maximisation approach.

Conclusion



Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

The next few months ahead of the final Budget are a vital period in providing resource, space and frameworks to allow businesses to plan for the year ahead. It is vital that the final Budget provides for the reassurance that SMEs form a key part of the vision for recovery and reconstruction, and we expect to see the final budget provide for the institutional support and vision to ensure that the SME sector can 'build back better'.

It is also incumbent on all parties in the Senedd seeking to become or form part of the new Welsh Government in May to set out their vision for business recovery, and contribute to a constructive debate on the best road to prosperity as we look to a better year for business in 2021. This should also include a strong commitment to the business support infrastructure which will be particularly crucial over the next Senedd term.

We hope that this evidence will help form part of that ongoing discussion and is of use to the Committee's scrutiny.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Ionawr 2021

Annwyl Llyr

Rwy'n ysgrifennu i ddwyn sylw'r Pwyllgor at newid arfaethedig y Comisiwn i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2020-21, drwy broses y Gyllideb Atodol. Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnydd o £1.05 miliwn i'w gyllideb adnoddau. Nid oes unrhyw newid arfaethedig i'w ofyniad arian parod net ar gyfer 2020-21.

Mae'r Comisiwn yn cynnig y canlynol:

- cynnydd o £0.4 miliwn i gyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol
- cynnydd o £0.65 miliwn i'w gyllideb weithredol (i ddarparu ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd).

Cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn y dyfodol, ac mae'n addasiad cyfrifyddu, yn hytrach na gofyniad arian parod.

Ni ellir cyfrifo gwir werth y Gwariant a Reolir yn Flynyddol tan ar ôl 31 Mawrth 2021. Felly, mae'r Comisiwn yn ceisio cael amcangyfrif proffesiynol o'r gwerth ar ddiwedd y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r wybodaeth actiwaraid a gafwyd yn nodi y gallai'r rhwymedigaeth fod yn £1.93 miliwn, sy'n uwch na ffigur y gyllideb, sef £1.6 miliwn. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cynnydd o £0.4 miliwn i gyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Ni fydd hyn yn effeithio ar y gofyniad o ran arian parod gan mai addasiad cyfrifyddu heblaw arian parod yw hwn.

Darpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd

Fel y nodais yn fy llythyrau at eich Pwyllgor, dyddiedig 7 Gorffennaf 2020 a 4 Tachwedd 2020, ynglŷn â goblygiadau ariannol pandemig COVID-19, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 - Buddion Gweithwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni am gost unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd a gronnwyd gan staff y Comisiwn ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol.

Yn fy llythyrau ac yn ystod ein sesiwn graffu ddiweddar ar gyllideb 2021-22, tynnais sylw at y ffaith ein bod yn rhagweld cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd. Sylwais y byddai angen cyllideb atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon, yn ôl pob tebyg, o ganlyniad i'r



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 Cysylltu@senedd.cymru
 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 Contact@senedd.wales
 0300 200 6565

cynnydd hwn. Rhoddais sicrwydd i'ch Pwyllgor na fyddai unrhyw ofyniad arian parod ychwanegol, er y byddai'r cynnydd yn sylweddol.

Amcangyfrifwyd bod y cynnydd yn y ddarpariaeth yn £0.65 miliwn. Yn ei hanfod mae'n anodd cyfrifo'r ddarpariaeth hon, oherwydd mae'r flwyddyn gwyliau blynyddol yn gorffen ar ddyddiad gwahanol i bob aelod o staff. Mae'r cynnydd, fel y nodais ym mis Hydref, o ganlyniad i staff yn gweithio'n galed iawn yn ystod y cyfnod hwn, gyda diffyg cyfleoedd i gymryd gwyliau. Mae'r cynnydd hefyd o ganlyniad i'r rhagdybiaeth y bydd yr amodau hyn yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol o leiaf. Fe wnaethoch gydnabod ein bod ar hyn o bryd mewn amseroedd digynsail ac ansicr.


Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor ein bod wedi ei gwneud yn glir drwy gydol y cyfnod hwn ein bod yn disgwyl i staff gymryd gwyliau. Nid mater ariannol yn unig yw hwn, ond un sy'n effeithio ar lesiant, iechyd a diogelwch staff. Rydym yn parhau i edrych ar wahanol ffyrdd o sicrhau bod staff yn cael cyfle i gymryd gwyliau.

Mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig Cyllideb Atodol ar gyfer ei Gyllideb weithredol o £41.953 miliwn, sy'n gynydd o'r swm gwreiddiol, sef £41.303 miliwn. Nid oes unrhyw effaith ar y gofyniad arian parod. Mae'r effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2019-20 wedi'i dangos yn y tabl isod:

	Cyllideb Gymeradwy	Cyllideb Cwestiwn atodol Cyllideb	Cyllideb Ddiwygiedig Cyllideb
Cyllideb Adnoddau	£41.303	£0.650	£41.953
Cyllideb yr Aelodau	£16.172	-	£16.172
Cyllideb yr Etholiad	£0.500	-	£0.500
Cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol	£1.600	£0.400	£2.000
Cyfanswm	£59.575	£1.050	£60.625

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i'ch Pwyllgor ystyried y cais hwn, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol yn nodi'r cais hwn am y Gyllideb Atodol. Mae copi o'r memorandwm esboniadol hwn ynghlwm er hwylustod i chi. Rhowch wybod i mi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Suzy Davies

cc Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



Ail Gyllideb Atodol 2020-21: Memorandwm Esboniadol

Ionawr 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@Senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCymru](https://twitter.com/SeneddCymru)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ail Gyllideb Atodol 2020-21: Memorandwm Esboniadol

Ionawr 2021



A photograph of a glass display case containing a sign. The sign has text in Welsh and English. The background is a wooden slat wall with a blue structural beam and a white triangular panel. The sign is held in place by a metal rod and a small white fastener.

Croeso
i'r Senedd
—
Welcome
to the
Senedd

Cynnwys

1	Cefndir.....	7
1.1.	Memorandwm Esboniadol	7
1.2.	Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).....	7
1.3.	Darpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd.....	8
1.4.	Effaith y gyllideb	9
2	Cwmpas y gyllideb	10



Tudalen y pecyn 110

1 Cefndir

Cafodd **Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2020-21** ei chynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Tachwedd 2019, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd cynnig y gyllideb yn rhoi £61.411 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn, sef:

- £43.139 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Senedd;
- £16.172 miliwn ar gyfer cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd; a
- £0.500 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag etholiad.

Darparwyd £1.600 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32 gosodwyd **Memorandwm Esboniadol**, gan gefnogi amrywiad i gyllideb 2020-21 y Comisiwn o fewn Cynnig y Gyllideb Atodol (Rheol Sefydlog 20.30). Cymeradwywyd Cynnig y Gyllideb Atodol yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mehefin 2020 yn dilyn gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Gosodir yr ail Femorandwm Esboniadol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb atodol gymeradwy'r Comisiwn ar gyfer 2020-21, drwy ail Gynnig y Gyllideb Atodol.

1.1. Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â rhagamcanion a chynyddu cyllideb weithrediadol y Comisiwn i adlewyrchu'r cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd ar gyfer Staff y Comisiwn.

1.2. Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn y dyfodol. Diben yr addasiad hwn yw sicrhau y caiff darlun gwir a theg o rwymedigaeth y Cynllun ei gofnodi yn

natganiad sefyllfa ariannol y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu talu i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac nid yw gwneud newidiadau iddo'n effeithio o gwbl ar gyllideb adnoddau na gwaith darparu gwasanaethau'r Comisiwn.

Ni ellir cyfrifo'r gwerth terfynol tan ar ôl 31 Mawrth 2021, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a newidynnau eraill sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun, yr amcangyfrif diweddaraf yw £1.93 miliwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol gwariant a reolir yn flynyddol o £2.0 miliwn er mwyn sicrhau bod digon wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau diwedd blwyddyn terfynol.

1.3. Darpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 - Buddion Gweithwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fesur unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo ac addasu ei ddatganiadau ariannol yn unol â hynny.

Yn ystod hanner cyntaf 2020-21, bu gostyngiad sylweddol (o gymharu â blynyddoedd blaenorol) yn nifer y diwrnodau o wyliau blynyddol y gofynnwyd amdanynt gan staff y Comisiwn. Mae hyn o ganlyniad i bwysau gwaith cynyddol a diffyg cyfle i gymryd gwyliau.

Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwyliau blynyddol a gronnwyd yn parhau i gynyddu wrth i staff gronni hawl i wyliau blynyddol ychwanegol erbyn 31 Mawrth 2021. Mae'r cyfleoedd i gymryd gwyliau hyd nes 31 Mawrth 2021 yn parhau i fod yn brin, gyda'r cynnydd parhaus ym musnes y Senedd (Covid-19 ac ymadawriad y DU â'r UE) a'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd yn gosod rhagor o ofynion ar staff y Comisiwn.

Ni ragwelwyd y cynnydd hwn yn y ddarpariaeth pan osodwyd y gyllideb ar gyfer 2020-21. Y ddarpariaeth ar hyn o bryd yw £0.8 miliwn (31 Mawrth 2020), sy'n cynrychioli 6.88 diwrnod o wyliau blynyddol a gronnwyd ar gyfartaledd a 2 ddiwrnod o wyliau hyblyg. Mae'r broses cynllunio senarios yn dangos y gallai balansau gwyliau a gronnwyd gynyddu i gyfartaledd o 13 diwrnod a 2 ddiwrnod o wyliau hyblyg. Byddai hyn yn cynyddu'r ddarpariaeth ofynnol i £1.45 miliwn, sef cynnydd o £0.65 miliwn.

Mae'r cynnydd o £0.65 miliwn yn y ddarpariaeth yn addasiad cyfrifyddu ac nid oes angen cynyddu gofyniad arian parod net y Comisiwn.

1.4. Effaith y gyllideb

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- Cynnydd yn y gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £0.4 miliwn, i £2.0 miliwn.
- Cynnydd yng nghyllideb refeniw gweithrediadol y Comisiwn o £0.65 miliwn, i £41.453 miliwn.

2 Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol atodol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021.

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwygiedig 2020-21 Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1	Wedi'i adolygu £000
<p>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ("y Comisiwn") ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.</p> <p>Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd.</p>	60,625
<p>Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu ▪ incwm rhent; rhoddion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Senedd. 	220
<p>Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn o ran y gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill.</p>	56,075

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl 2: Gofyniad arian parod	£'000 2020-21 Wedi'i adolygu
Gofyniad referniw net yr Aelodau	16,172
Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad	500
Gofyniad referniw net y Comisiwn	41,453
Gofyniad cyfalaf net	500
Gwariant a reolir yn flynyddol	2,000
Is-gyfanswm	60,625
Addasiadau	
Dibrisiant	(2,250)
Newidiadau mewn darpariaethau	(2,000)
Newidiadau o ran dyledwyr a chredydwyr	(300)
Is-gyfanswm	(4,550)
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru	56,075

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Y Drydedd Gyllideb Atodol 2020-21

Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Ad-dalu Gwarged Pensiwn

Bu'r Amcangyfrif ar gyfer 2020/21 yn destun craffu gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2019, cafodd ei gynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol ym mis Rhagfyr 2019 a'i ddiwygio gan Gyllideb Atodol ym mis Mai 2020.

Fel yr eglurwyd i'r Pwyllgor yn y sesiwn graffu ym mis Hydref 2020, ymddeolodd y gweithiwr olaf o Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn 2020/21 sy'n golygu bod OGCC, fel y cyflogwr, wedi gadael y Gronfa. Bu'r gronfa mewn gwarged, felly roedd y swm hwn i'w ad-dalu i OGCC.

Cwblhaodd Actiwari'r Cynllun ailbrisiad o'r Gronfa ar y dyddiad gadael, gan brisio'r Gronfa yn £ 974k. Mae'r gwarged hwn bellach wedi'i ad-dalu'n llawn i OGCC.

Yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y gall OGCC drin yr ad-daliad hwn o gostau pensiwn fel incwm. Yna, gellir defnyddio'r incwm ychwanegol hwn o £974k i dalu am y gwariant gweithredol. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau cyfanswm y gofyniad arian parod ar gyfer 2020/21 o'i gymharu â'r Cynnig Cyllideb wreiddiol o £974k.

I alluogi OGCC i drin y £974k fel incwm ychwanegol, bydd angen diwygio geiriad rhan 2 Atodlen 4 y Cynnig Cyllideb (y cwmpas ar gyfer incwm) i gynnwys 'ad-dalu gwarged pensiwn' yn y disgrifiad. Bydd hyn yn cynyddu lefel yr incwm y gall OGCC ei gadw, a bydd yn caniatáu i'r gostyngiad yng nghyfanswm y gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru gael ei ailddyrannu i rywle arall yng Nghymru.

Angen Adnoddau Ychwanegol i Gyfrif am Wyliau Blynyddol Heb eu Cymryd

Ym mis Mai 2020, cynyddom dros dro'r nifer o wyliau blynyddol caniataedig y gall staff ei gario ymlaen o un flwyddyn o wyliau blynyddol i'r nesaf, i 14 diwrnod. Mae blynyddoedd gwyliau blynyddol ein staff yn seiliedig ar y dyddiad y dechreusant eu cyflogaeth.

Canslwyd gwyliau cynlluniedig sawl aelod o staff ac ni fyddai wedi bod yn rhesymol gwrthod cyfle i staff gael gwyliau. Ar yr adeg honno, yr oedd disgwyl y byddai staff yn cymryd gwyliau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan oedd yn bosibl teithio eto. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau teithio wedi parhau i raddau helaeth ac rydym bellach mewn cyfnod clo arall lle na chaniateir teithio. Er bod staff wedi cael eu hannog i gymryd amser i ffwrdd, ac wedi gwneud hynny, nid yw nifer o staff wedi cael cyfle i gymryd seibiant estynedig.

Mae difrifoldeb a hyd y cyfyngiadau sy'n deillio o'r pandemig yn fwy na'r hyn yr oeddem wedi gobeithio ym mis Mai, ac o ganlyniad bydd gwerth gwyliau blynyddol ein staff sydd heb eu cymryd, erbyn 31 Mawrth 2021, yn sylweddol. Oherwydd y cynnydd yn y nifer o wyliau blynyddol caniataedig y gall staff ei gario ymlaen a'r diffyg cyfleoedd i gymryd gwyliau, amcangyfrifir bod gwerth y gwyliau blynyddol hyn oddeutu £160,000 yn fwy nag mewn blwyddyn arferol. Nid yw'r gwerth hwn, sydd yn ddyledus i staff i bob pwrpas, yn effeithio ar sefyllfa'r arian parod ond mae'n rhaid ei adlewyrchu yn ein cyfrifon fel ymrwymiad adnoddau. Mae'r gyllideb atodol yn dangos y gost ychwanegol hon, ynghyd ag addasiadau i ddangos nad yw'n effeithio ar sefyllfa'r arian parod.

Atodiad A

Amcangyfrif	2020/21	2020/21
Gwariant OGCC	Y Gyllideb Wreiddiol	Cyllideb Atodol
	£000s	£000s
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig	£3,889	£3,889
Adnoddau ychwanegol - cynnydd yn y gwyliau blyneddol heb eu cymryd	-	£160
Eiddo a chyfleusterau, gan gynnwys prydlesi	£425	£425
Ffioedd proffesiynol	£280	£280
Costau TGCh	£190	£190
Costau swyddfa	£118	£118
Teithio, hyfforddi a recriwtio	£90	£90
Cysylltiadau	£50	£50
Cyfanswm Gwariant Refeniw	£5,042	£5,202
Cyfanswm incwm, gan gynnwys ad-dalu gwarged Pensiwn	(£17)	(£991)
Gwariant Refeniw Net	£5,025	£4,211
Gwariant Cyfalaf	£25	£25
Cyfanswm Adnoddau Gweithredol	£5,050	£4,236
Taliadau dibrisiant ag amorteiddio	£60	£60
Newid yn y Gwarged Pensiwn	-	£974
Cyfanswm Gwariant Adnoddau	£5,110	£5,270
Taliadau dibrisiant ag amorteiddio	(£60)	(£60)
Newid yn y gwarged pensiwn	-	(£974)
Newid yn y cyfalaf gweithio - cynnydd yn y gwyliau blyneddol	-	(£160)
Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod	£20	£20
Gofynion Arian Parod gan WCF	£5,070	£4,096

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Mr Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Cyfeirnod: LF21001/AC/239/caf
Dyddiad cyhoeddi: 6 Ionawr 2021

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl Llŷr

Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru 2020-21

Byddwch yn cofio inni ysgrifennu atoch yn ôl ym mis Gorffennaf 2020 yn egluro ein syniadau cynnar ynghylch goblygiadau ariannol posibl pandemig Covid-19.

Fe wnaethom esbonio ei bod yn anodd iawn ar yr adeg honno rhagweld effaith y pandemig ar ein gwaith archwilio ac felly beth fyddai'r incwm y byddem yn gallu ei sicrhau o ffioedd yn y flwyddyn. Disgwyllem ostyngiad sylweddol yn ein hincwm o ffioedd archwilio perfformiad, er y byddai hyn yn cael ei wrthbwysu gan arbedion mewn rhai meysydd cyllidebol – yn enwedig ein costau teithio. Dywedasom y byddai uchafswm ein cais ychwanegol i Gronfa Gyfunol Cymru oddeutu £500,000.

Fel mae'n digwydd, a diolch i waith caled ein staff yn gweithio o bell drwy gydol y flwyddyn anodd hon, rydym wedi llwyddo i gyflawni mwyafrif llethol ein gwaith archwilio cyfrifon a pherfformiad, sy'n ennill ffioedd. Yn rhai achosion, a dweud y gwir, bu rhaid inni wneud gwaith archwilio ychwanegol sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau y daethpwyd ar eu traws mewn cyrff a archwilir yn y flwyddyn eithriadol hon.

Rydym felly yn cyflwyno Amcangyfrif Atodol, nid i ofyn am gyfraniad ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru ond i ganiatáu inni gydnabod yr incwm ychwanegol yr ydym wedi ei gynhyrchu o ffioedd. Bydd gallu cadw'r incwm ychwanegol hwnnw yn ein galluogi i gwrdd â'r costau cysylltiedig yr ydym wedi mynd iddynt, megis effaith y ffaith fod ein staff wedi gohirio eu gwyliau blynyddol cynlluniedig ynghyd â chostau am waith a wnaed gan gwmnïau a gontractiwyd gennym. Nid oes cais am gyfraniad ychwanegol i Gronfa Gyfunol Cymru yn codi o'r cais hwn.

Yn gywir



LINDSAY FOYSTER
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Amrywio Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Cyhoeddwyd: Ionawr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2220A2020-21

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid y Senedd i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Lindsay Foyster
Cadeirydd, ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Rhesymau dros newid	4
Addasiadau i gyllidebau adnoddau	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Crynodeb o ofynion cyllideb 2020-21 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006	7

Cyflwyniad

- 1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Senedd. Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r Amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Senedd ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau y mae'n eu hystyried yn briodol.
- 2 Cafodd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21 ei gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Flynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth 2020 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Cyllid.
- 3 Roedd cynnig y gyllideb yn awdurdodi Swyddfa Archwilio Cymru i gadw £14.004 miliwn o adnoddau cronrus, a gynhyrchwyd drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru, a darparodd £8.228 miliwn arall o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y £22.232 miliwn hwn i ariannu costau Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- 4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Rhesymau dros newid

Costau ac incwm cynyddol sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio

- 5 Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn ddigynsail i bob sefydliad oherwydd pandemig byd-eang COVID-19 ac nid yw Archwilio Cymru yn eithriad.
- 6 Fel y nodir yn ein Hadroddiad Interim ar gyfer 2020-21, mae ein staff wedi ymateb i'r her o weithio o bell ac wedi gallu cyflawni llawer o'n gwaith archwilio yn ôl y bwriad tra'n gweithio o bell oherwydd y pandemig.
- 7 Mae'r rhan fwyaf o'n cyrff archwiliedig hefyd wedi bod yn gweithio o bell ac, mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at oedi wrth gynhyrchu eu cyfrifon a phapurau gwaith cysylltiedig, sydd wedi cynyddu'r amser sydd ei angen i gyflawni ein gwaith archwilio – ac felly cost ein gwaith archwilio cyfrifon. Mae hyn wedi bod yn berthnasol i waith archwilio a wnaed gan ein staff ein hunain a'r hyn a wnaed gan gwmnïau contractio sy'n gwneud y gwaith hwn ar ein rhan.

- 8 Pan fo'r costau ychwanegol hyn o ganlyniad i aneffeithlonrwydd yn sgil gweithio o bell gan staff Archwilio Cymru, byddwn yn talu'r costau ychwanegol. Os ydynt yn ganlyniad i oedi neu gyfrifon o ansawdd gwael a gyflenwir gan gyrff archwiliedig, bydd angen i ni gynyddu'r ffi archwilio sy'n daladwy i dalu am gostau ychwanegol.
- 9 Mae effaith y gwaith archwilio ychwanegol hwn yn 2020-21 yn golygu bod angen i ni gadw £266,000 ychwanegol o adnoddau cronus yn ystod y flwyddyn. Nid oes galw ychwanegol ar Gronfa Gyfunol Cymru sy'n deillio o'r newid hwn.
- 10 Defnyddir yr incwm ychwanegol hwn, ynghyd ag arbedion a wneir ar draws meysydd cyllideb eraill gan gynnwys teithio a chynhaliaeth, i dalu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwaith a wneir gan gwmnïau contractio a'r costau sy'n gysylltiedig â'n staff ein hunain yn gohirio gwyliau blynyddol. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn i fuddsoddi mewn cynllun ymadael gwirfoddol yn unol â'n strategaeth gwaith. Bydd arbedion a gyflawnwyd o fuddsoddiad mewn allanfeydd gwirfoddol eleni yn gwneud cryn gyfraniad i'r targedau arbedion heriol yr ydym wedi'u gosod ar ein cyfer yn 2021-22.

Treuliau'r Cadeirydd

- 11 Ers 2013, mae costau teithio a threuliau sy'n gysylltiedig â'r Cadeirydd wedi'u talu gan Swyddfa Archwilio Cymru a'u hariannu o Gronfa Gyfunol Cymru drwy gyllideb gyflenwi. Yn ystod 2019-20, o ganlyniad i newid yn y ffordd y mae Cyllid a Thollau EM yn cyfrif am atebolrwydd treth sy'n gysylltiedig â threuliau o'r fath, nododd Comisiwn y Senedd y dylai'r costau hyn gael eu trin fel tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, yn hytrach na chael eu talu o'r gyllideb gyflenwi. O ganlyniad, ers 2019-20 mae holl gostau o'r fath wedi'u talu gan Gomisiwn y Senedd a'u had-dalu drwy godi tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.
- 12 Nid oedd y newid hwn wedi'i nodi cyn cymeradwyo ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21 ac mae bellach wedi'i adlewyrchu yn yr Amcangyfrif Atodol hwn. O ganlyniad, rydym yn lleihau ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru £5,000 yn 2020-21.

Addasiadau i gyllidebau adnoddau

- 13 Fel yr esboniwyd uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio cynyddu ei hadnoddau cronnus £266,000 a lleihau ei hadnoddau refeniw £5,000 yn 2020-21.
- 14 Nodir y newidiadau gofynnol i'r gyllideb **yn Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: Newidiadau i'r gyllideb 2020-21

	Amcangyfrif Cymeradwy 2020-21 £'000	Amcangyfrif Atodol 2020-21 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2020-21 £'000
Adnodd refeniw	7,998	(5)	7,993
Adnodd cyfalaf	230	–	230
Adnoddau cronnus	14,004	266	14,270
Cyfanswm y gwariant	22,232	261	22,493
Gofyniad arian parod net	8,448	(5)	8,443

Atodiad 1

Crynodeb o ofynion cyllideb 2020-21 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), caiff Gweinidogion wneud Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a chodi arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi:

- faint o adnoddau sydd i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- faint o adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu cadw (yn hytrach na'u talu i'r Gronfa Gyfunol); a'r
- swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond eu hamcangyfrif oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn **Nhabl 1** isod.

Tabl 1: Crynodeb o ofynion cyllideb amcangyfrifedig 2020-21

	£'000
Adnoddau ar wahân i gronni adnoddau i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilywyr penodedig llywodraeth leol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Refeniw	7,993
• Cyfalaf	230
Adnoddau cronrus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau a darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	14,270
Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	8,443



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon